



Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Meithrinfa Ddydd a Crèche Bijou, Y Bont-faen

Perchennog polisi: Nursery Manager / Rheolwr y Feithrinfa

Fersiwn: 2.0

Adolygwyd ddiwethaf: June 2026 / Mehefin 2026

Adolygiad nesaf: June 2027 / Mehefin 2027

Cymeradwywyd gan: Samantha Rennison, Responsible Individual / Unigolyn Cyfrifol

1. Datganiad Polisi

Mae Meithrinfa Ddydd a Crèche Bijou yn cydnabod y rôl gynyddol y mae cyfryngau cymdeithasol yn ei chwarae mewn bywyd bob dydd ac mae wedi ymrwmo i sicrhau eu defnydd diogel a chyfrifol mewn perthynas â'n meithrinfa, plant, teuluoedd a staff.

Llywir y polisi hwn gan Ddeddf Diogelu Data 2018; GDPR y DU; Deddf Plant 1989 a 2004; Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019; Safonau Gofynnol Cenedlaethol 2016; Deddf Diogelwch Ar-lein 2023; a chanllawiau AGC.

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth, aelodau pwyllgor a rhieni/gofalwyr.

3. Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Feithrinfa

- Dim ond staff dynodedig, awdurdodedig sy'n cael postio ar ran y feithrinfa
- Adolygir a chymeradwyir yr holl gynnwys gan Reolwr y Feithrinfa cyn ei gyhoeddi
- Dim ond pan fo caniatâd ysgrifenedig wedi'i gael gan rieni y cyhoeddir lluniau o blant
- Ni chaiff plant byth eu hadnabod yn ôl eu henw llawn ar unrhyw blatfform cyfryngau cymdeithasol

4. Cyfryngau Cymdeithasol Personol Staff

- Rhaid i staff beidio â phostio lluniau, fideos, na gwybodaeth am blant, teuluoedd na chydweithwyr ar gyfrifon personol
- Rhaid i staff beidio â derbyn neu anfon ceisiadau ffrind at/gan rieni, gofalwyr neu aelodau teulu
- Rhaid i staff beidio â phostio sylwadau negyddol, difriol na difenwol am y feithrinfa
- Rhaid i staff beidio â defnyddio cyfryngau cymdeithasol personol yn ystod oriau gwaith

5. Rhieni a Gofalwyr

- Gofynnir i rieni beidio â thynnu lluniau na ffilmio plant pobl eraill yn nigwyddiadau'r feithrinfa heb ganiatâd
- Rhaid i rieni beidio â phostio lluniau o blant eraill ar eu cyfryngau cymdeithasol
- Rydym yn annog rhieni i godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol â'r feithrinfa

6. Diogelu

Os daw unrhyw aelod o staff yn ymwybodol o weithgaredd cyfryngau cymdeithasol sy'n codi pryder diogelu, rhaid adrodd hyn i'r PDD ar unwaith.

7. Toriadau

Gall unrhyw doriad o'r polisi hwn gan staff arwain at gamau disgyblu hyd at a chan gynnwys diswyddo.

Meithrinfa Ddydd a Crèche Bijou
Unigolyn Cyfrifol: Samantha Rennison
Cofrestru AGC: W15/00001742 · Rhif Cwmni: 11468667

48A Eastgate, Cowbridge, CF71 7AB · 01446 396 000 · cowbridge@bijou-nursery.com
AGC: W15/00001742 · Cwmni: 11468667 · www.bijou-nursery.com